## P-05-973 Ailagor siopau barbwyr a siopau trin gwallt cyn belled â'u bod yn gosod mesurau cadw pellter cymdeithasol llym

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Siobhan King, ar ôl casglu cyfanswm o 118 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae'r cyfyngiadau symud bellach wedi bod arnom ers dau fis. Mae'r cyfnod hwn wedi bod hyd yn oed yn hwy i'r rhai a ddewisodd hunan-ynysu yn gynnar. Gydag agor canolfannau garddio yn ddiweddar, dylem nawr fod yn trafod ailagor siopau barbwr a siopau trin gwallt, cyn belled â bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cymryd o ddifrif.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae ymddangosiad wastad wedi bod yn bwysig iawn, ond mae'n bwysicach fyth yn yr oes sydd ohoni. Nid yw pobl yn teimlo'n dda pan nad ydyn nhw'n edrych yn dda, a chan fod pawb yn gorfod aros i mewn, y peth lleiaf i ofyn amdano yw ein bod yn teimlo'n dda amdanom ni ein hunain. Mae materion iechyd meddwl wedi tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf ac un rheswm pam yw'r angen cynyddol i edrych yn dda er mwyn teimlo'n dda, a chyda'r cyfyngiadau symud presennol mae materion iechyd meddwl yn sicr o fod yn fwy cyffredin.

Dylai'r mesurau cadw pellter cymdeithasol yn y lleoliadau hyn gynnwys apwyntiad yn unig, a dim ond caniatáu nifer gyfyngedig o staff bob y dydd. Dylai fod nifer gyfyngedig o bobl i mewn ar unrhyw adeg, ac ni ddylid caniatau ymgynnull na chiwio y tu allan. Dylai'r holl offer a chadeiriau gael eu glanhau'n drylwyr rhwng pob cwsmer, dylid gwisgo menyg a masgiau, a dylid cadw cadeiriau ddwy fetr oddi wrth ei gilydd. Gellid rhoi unrhyw fesurau eraill ar waith i sicrhau diogelwch, ond mae'n rhaid rhoi stop ar y pennau blêr yma.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Casnewydd

- Dwyrain De Cymru